Cwm Taf Morgannwg
Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol | Regional Partnership Board

CREU GWASANAETHAU A CHEFNOGAETH SY'N HYGYRCH:

# Gwybodaeth, Cyngor ac Arweiniad

**I bobl gael mynediad i'r wybodaeth a'r arweiniad cywir.**

**Rydyn ni eisiau i bobl gael mynediad at y wybodaeth, y cyngor a'r arweiniad sydd eu hangen arnynt.**

**I gyflawni hyn, byddwn ni'n gweithio tuag at:**

- **Gwella mynediad at wybodaeth fel y gall pobl ddeall yn well sut y gallan nhw gefnogi rhywun neu gael mynediad at wybodaeth.**
- **Datblygu lleoedd diogel fel y gall pobl fynychu gwasanaethau a gweithgareddau yn eu cymunedau.**
- **Creu dull gweithredu rhanbarthol sy'n canolbwyntio ar gymorth sy'n canoli ar yr unigolyn.**
- **Sicrhau bod cymorth teg ar gael ar draws ein rhanbarth.**





## BETH SY'N BWYSIG I BOBL?

Hoffai pobl weld gwybodaeth hygyrch yn cael ei rhannu fel nad ydyn nhw'n cael eu cau allan oherwydd namau synhwyraidd neu allu digidol.

Hoffen nhw weld gwybodaeth yn cael ei rannu ar lawer o lefelau, fel bod gweithwyr proffesiynol a phobl â phrofiadau byw yn gwybod am yr holl wasanaethau sydd ar gael yn y rhanbarth, ac yn cymryd rhan mewn gwelliannau a datblygiadau.

## BETH FYDDWN NI'N EI WNEUD GYDA'N GILYDD:

- Creu gwybodaeth hygyrch sy'n hawdd ei deall, a helpu pobl i fod yn ymwybodol o'r gwasanaethau a'r cymorth sydd ar gael iddyn nhw.

## PA WAHANIAETH FYDD HYN YN EI WNEUD?

- Peri fod pobl yn fwy gwybodus am ba wasanaethau / gweithgareddau sydd ar gael.

### DYWEDODD POBL

**"Mae angen i ni ddod o hyd i wahanol ffyrdd o gyfathrebu gan gynnwys defnyddio gwahanol ddulliau cyfathrebu gan nad yw un ateb yn addas i bawb."**